Eitem Agenda 4 **12 Chwefror 2010** **WNC 02.10**

ADRODDIAD CYLLID HYD 31 RHAGFYR 2009

Pwrpas

1. Rhoi gwybod i'r Pwyllgor Cenedlaethol am faterion ariannol a pherthynol sy'n wynebu Comisiwn Coedwigaeth Cymru ar hyn o bryd.

BA08/09

2. Dechreuodd Swyddfa Archwilio Cymru archwilio cyfrifon ailddatganedig y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol ar 28 Tachwedd 2009. Roedd y prif sylw, yn ôl y disgwyl, ar y Dadansoddiad Portffolio (h.y. dadansoddiad o Ystâd Goetir Llywodraeth y Cynulliad yn ôl ffactorau Cymdeithasol, Amgylcheddol ac Economaidd) sy' tanategu prisiad yr Ased Biolegol (h.y. y coed a'r tir lle maent yn tyfu) yn unol â Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol 41. Rydym yn disgwyl am gasgliadau Swyddfa Archwilio Cymru.

BA09/10

3. Mae'r wir sefyllfa hyd at fis Rhagfyr 2009, ond y Rhagolwg yw hwnnw a gytunwyd gan y Bwrdd Rheoli wedi'i gymhwyso gan f'amcangyfrifon gorau ar sail y tywydd diweddar.

Tabl 1 £000	Cyllideb Flynyddol	Proffil Cyllideb Rhagfyr	Gwir Rhagfyr	Amrywiant i'r Proffil	Cynnyrch a Ragwelir
Adrannol					
Costau Gweinyddol	5,333	4,100	3,840	260 (F)	5,164
Costau Rhaglenni	5,045	2,800	2,341	459 (F)	4,942
Incwm Rhaglenni	-886	-710	-621	-89 (A)	-1,244
Costau Adrannol Net	**9,492**	**6,190**	**5,560**	**630 (F)**	**8,862**
Coetir y Cynulliad					
Incwm Gweithredol	-12,765	-10,500	-11,225	725 (F)	-13,965
Gwariant Gweithredol	20,812	16,300	16,109	191 (F)	21,192
(Gwarged) / Diffyg Gweithredol	**8,047**	**5,800**	**4,884**	**916 (F)**	**7,227**
Incwm Cymdeithasol ac Amgylcheddol	-1,017	-800	-867	67 (F)	-1,017
Gwariant Cymdeithasol ac Amgylcheddol	8,246	6,500	5,915	585 (F)	8,701
Diffyg Cymdeithasol ac Amgylcheddol	**7,229**	**5,700**	**5,048**	**652 (F)**	**7,684**
Cyfanswm y Diffyg Gweithredol	**15,276**	**11,500**	**9,932**	**1,568 (F)**	**14,911**
Cymwysiadau o Adnoddau Llawn i Ofyniad Arian Net **	**-2,446**	**-940**	**1,508**	**-2,448**	**-3,990**
Gofyniad Arian Net	**22,322**	**16750**	**17000**	**-250**	**19,783**
Ariannu Llinell Sylfaen Llywodraeth y Cynulliad	**22,533**	**17800**	**18750**	**-950**	**22,533**
(Gwarged) / Diffyg – Gofyniad Arian Parod	**-211**	**(-)**	**(-)**	**(-)**	**-2,750**

(A) yn dynodi amrywiant anffafriol
(F) yn dynodi amrywiant ffafriol

** yn dynodi gweithgaredd ar y Fantolen: incwm a gwariant cyfalaf a symudiadau mewn cronfeydd wrth gefn a'r cyfalaf gweithredol

4. **Crynodeb o'r Sefyllfa:** Rwy'n rhagweld y byddwn yn gwneud y defnydd mwyaf posibl o'r Gronfa Ariannu Hyblyg. Mae'r sefyllfa reoledig hon yn golygu bod gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru y lefelau angenrheidiol o ariannu ar gyfer y gwariant rhaglenni dangosol a ragwelir yn y cynllun busnes 3-blynedd (BA10/11 – BA12/13) ac mae hefyd yn fodd i liniaru ynglŷn â:

- ansicrwydd yn y farchnad bren yn y dyfodol;
- gostyngiad yn lefel ariannu Llywodraeth Cynulliad Cymru yn BA10/11 a thu hwnt;
- y gost o newid sy'n gysylltiedig â chyflawni strategaeth Coetiroedd i Gymru.

Costau Adrannol Net

5. Cafodd y cronfeydd wrth gefn nad oedd eu hangen i fuddsoddi mewn Cydwasanaethau eu cynnwys yn 'Cynnyrch a Ragwelir' gan roi amrywiant ffafriol ar gostau Gweinyddol.

6. Mae'r costau Rhaglenni'n adlewyrchu rhagolwg o ychydig yn llai o alw am Goetiroedd Gwell i Gymru a'r Cynllun Grantiau Coetir (-£0.3m) a darpariaeth ddiangen ar gyfer y Plant! Menter (-£0.2m). Mae hyn yn cael ei wrthbwyso'n rhannol gan ariannu prosiectau newydd yr UE na chafodd eu cyllidebu, sef Cymal 2 y Cynllun Busnes Ynni Pren a FUTUREforest (+ £0.1m).

7. Mae'r Incwm Rhaglenni'n cynnwys adfer Prosiectau Cyllido'r UE ynghyd â lefelau uwch o Gyd-ariannu'r UE.

Cyfanswm y Diffyg Gweithredol

8. Mae'r Incwm Gweithredol yn dal i adlewyrchu'r Rhagolygon ar gyfer Medi a adroddwyd i'r Pwyllgor ym mis Tachwedd. Roedd y rhain yn nodi galw uwch na'r disgwyl am bren a biomas, sydd wedi parhau drwy gydol y flwyddyn.

9. Cafodd y Gwariant Gweithredol ei gymhwyso ar gyfer y gost ychwanegol o ddiwallu'r galw ychwanegol am Fio-danwydd a Ffyrdd oherwydd effaith y tywydd gwael, a gafodd ei wrthbwyso'n rhannol gan arbedion ar Ailblannu.

10. Cymdeithasol ac Amgylcheddol – Mae'r Incwm yn unol â'r Gyllideb ac mae'r gwariant yn adlewyrchu incwm gweithredol a oedd yn well na'r disgwyl, a defnyddiwyd hyn ar y gwaith adfer yn dilyn Tirlithriad Tyndyrn a gafodd ei oedi tan y Flwyddyn Ariannol hon.

Dadansoddiad Risg

11. **BA09/10:** mae'r risg o fynd dros ein Cyllideb yn dal i fod yn **Isel**.

12. **BA10/11 a'r tu hwnt:** Mae Llinell Sylfaen BA10/11 yn dal i fod yn £0.5m yn is na BA09/10. Mae'r risg **Uchel** o ostyngiad yn y dyfodol yn parhau. Mae'r gostyngiad o 2% a ddynodir gan Uned Fusnes yr Adran Materion Gwledig yn cael ei liniaru rywfaint wrth ddefnyddio'r Gronfa Ariannu Hyblyg.

Materion Perthynol Eraill

13. Cynllunio Busnes – Bûm yn cyfarfod â'r Cyfarwyddwr i adolygu'r prif ffigurau a nawr rwy'n gweithredu'r newidiadau sydd eu hangen i gael cyllideb gytbwys ar gyfer y tair Blwyddyn Ariannol nesaf. Cyflwynir y Gyllideb ffurfiol i gyfarfod mis Mawrth i'w hystyried a'i chymeradwyo gan y Pwyllgor. Gyda golwg ar ymgyfuniad y cynllunio Corfforaethol a Busnes, bydd yr adroddiad nesaf i'r Pwyllgor yn adlewyrchu'r fformat diwygiedig.

14. **Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon BA09/10] -** rydym wedi penderfynu defnyddio Contract Comisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr gyda Price Waterhouse Coopers i ddarparu Cyfrifydd Cymwysedig i helpu i gwblhau Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon BA09/10] a fydd yn cael eu paratoi am y tro cyntaf yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Goblygiadau Adnoddau

15. Fel arfer nid oes unrhyw oblygiadau o ran adnoddau'n codi o'r papur fel y cyfryw. Mae'n gweithredu fel arweiniad i sut mae'r adnoddau presennol yn cael eu rheoli.

Cyfathrebu

16. Mae sefyllfa ariannol Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn cael ei chyflwyno trwy gyfrwng y papur hwn, sy'n cael ei olygu ar gyfer unrhyw gynnwys masnachol-sensitif, ar y Rhyngrwyd. Yn y cyfamser, fe'i trosglwyddir i Reolwyr Unedau trwy gyfrwng Cyfarfodydd Fforwm Rheolwyr, a Chyfarfodydd Grŵp Rheoli'r Ystâd. Hefyd, anfonir copïau o'r Adroddiadau Cyllid at Uned Fusnes Adran Materion Gwledig Llywodraeth y Cynulliad, Cyfarwyddwr Cyllid Comisiwn Coedwigaeth Prydain Fawr a'r Pennaeth Archwilio Mewnol.

Argymhelliad

17. Bod y Pwyllgor yn nodi'r sefyllfa bresennol.

Paul J Subacchi
Pennaeth Cyllid Dros Dro
12 Chwefror 2010